**PET(4) WPI 47**
**Y Pwyllgor Deisebau**

**Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru**
**Ymateb gan Adran Eglwys a Chymdeithas Eglwys Bresbyteraidd Cymru**

Annwyl Abigail Phillips,

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn falch iawn o gael ymateb i gais y pwyllgor deisebau am sylwadau parthed y posibilrwydd o sefydlu Academi neu sefydliad Heddwch yng Nghymru. Yr ydym fel Cymanfa Gyffredinol - corff uchaf ein henwad, wedi mynegi ein cefnogaeth lwyr i'r ymgais i geisio sefydlu Academi Heddwch i Gymru ar batrwm y rhai sydd i'w cael yng ngwledydd bychain a rhanbarthau Fflandrys a Chatalunia.

Mae'r eglwys yn un o'r enwadau anghydffurfiol yng Nghymru gyda thraddodiad dwfn o blaid materion heddwch yn rhan o'i hanes a'i thystiolaeth i'r byd. Fe fyddem ni fel eglwys yn barod iawn i gefnogi Academi Heddwch pe sefydlid un yng Nghymru trwy fod yn defnyddio ein rhwydweithiau i hyrwyddo'r sefydliad.

Fe fyddem yn cymryd y byddai Academi o'r fath yn cynnwys cynrychiolaeth o bob math o sefydliadau yng Nghymru - crefyddol, gwleidyddol, addysgol ac ati, ac yn fforwm i lawer o drafodaeth ac arweiniad a chyngor wrth lunio polisi yn y llywodraeth, er nad yn uniongyrchol gyfrifol am bolisi. Byddem yn disgwyl y byddai gan Academi o'r fath staff bychan a fyddai'n gallu trefnu cyfarfodydd ac ymchwilio a pharatoi papurau ar wahanol faterion.

Fe fyddem wrth gwrs yn fodlon iawn i enwebu cynrychiolwyr a sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd o'n plith ein hunain.

Allwn ni ond meddwl am yr effeithiau daionus a ddeuai i Gymru o fod yn sefydlu Academi o'r fath. Fe fyddai beirniadu wrth gwrs, fel yr ydym ni ein hunain wedi gwneud, ar lywodraeth y cynulliad oherwydd eu cefnogaeth i gynhyrchu a datblygu arfau yng Nghymru a'u cefnogaeth trwy ddefnydd o'n tir a'n awyr i hyfforddiant y lluoedd arfog yma. Ond, fe fyddai'r symudiad positif i sefydlu academi yn rhoi'r llwyfan cywir ar gyfer unrhyw drafodaethau a ddylai ddigwydd ac yn rhoi'r wybodaeth wrthrychol sydd yn angenrheidiol wrth edrych ar ein hymwneud yn y diwydiant arfau a'r lluoedd arfog.

Yr eiddoch yn gywir,

Huw Powell-Davies (Parch.)
(Ysgrifennydd Adran Eglwys a Chymdeithas Eglwys Bresbyteraidd Cymru)